



## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 12:00 – 12:30

 18/04/23

 Galwad Teams

Cadeirydd	Alistair Neill
-----------	----------------

Yn bresennol		Teitl	Sefydliad
Alistair Neill	AKN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Yn bresennol			
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Simon Cookson	SC	Pennaeth Archwilio Mewnol	PCGC
Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Paul Evans	PE	Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio Dros Dro	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Francis	JF	Pennaeth Gwasanaethau Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Darren Griffiths	DG	Arweinydd Archwilio	Archwilio Cymru
Krisztina Kozlowszky	KK	Rheolwr Archwilio Mewnol	PCGC
Gareth Lavington	GL	Pennaeth Atal Twyll	Caerdydd a'r Fro

Shikala Mansfield	SM	Pennaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Stephen Price	SP	Rheolwr Cymwysiadau (Corfforaethol)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Claire Osmundsen-Little	COL	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Paul Owen	PO	Uwch Arbenigwr Cynnyrch	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Robinson	JR	Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Mike Whiteley	MW	Rheolwr Archwilio	Archwilio Cymru
Sabel Williams	SW	Arweinydd Archwilio	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones	MWJ	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio Perfformiad, (Iechyd)	Archwilio Cymru

Acronymau			
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
---------------	-------	-----------	----------------

1	<b>MATERION RHAGARWEINIOL</b>		
1.1	<b>Croeso a chyflwyniadau</b> Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod preifat y Pwyllgor.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<b>Ymddiheuriadau absenoldeb</b> Cafwyd ymddiheuriadau absenoldeb oddi wrth: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Marian Wyn Jones, Cadeirydd ac Aelod Annibynnol</li> <li>• Marilyn Bryan Jones, Aelod Annibynnol</li> <li>• Nathan Couch, Archwilio Cymru</li> </ul>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<b>Datganiadau o Fuddiannau</b> Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2	<b>BUSNES Y CYFARFOD</b>		
2.1	<b>Cofnodion y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023</b> Byddai newidiadau a dderbyniwyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn cael sylw. <b>Penderfynodd</b> y Pwyllgor: <b>GYMERADWYO'R</b> cofnodion fel rhai cywir, yn amodol ar y newidiadau a dderbyniwyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	<b>Log Gweithredu</b> Casglwyd tri cham gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ac roedd y Pwyllgor yn falch o nodi eu bod i gyd wedi'u cwblhau. <b>Penderfynodd</b> y Pwyllgor: <b>NODI'R</b> tri cham gweithredu a gwblhawyd.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3	<b>ARCHWILIO, ATAL TWYLL A RISGIAU</b>		
3.1	<b>Cofrestr Risg Preifat</b> Cadarnhaodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) statws yr un risg breifat ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor. <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>DHCW0286 Cyllid Seiberddiogelwch.</b> Mae'n bosibl y bydd y risg yn cael ei israddio ar ôl cyflwyno'r achos busnes i sicrhau cyllid Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) i symud yr achos busnes yn</li> </ul>	Sicrwydd	Dim i'w nodi

	<p>ei flaen.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor:</b></p> <p><b>NODI y Gofrestr Risg Breifat ar gyfer SICRWYDD.</b></p>		
3.2	<p><b>Cynnydd Adolygiad Stoc TG o ran Argymhellion Archwilio Mewnol</b></p> <p>Rhoddodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid ddiweddariad ar lafar ar y cynnydd a wnaed ar argymhellion yr archwiliad mewnol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd 31 o argymhellion, ac roedd 10 ohonynt yn ymwneud â Stoc TG.</li> <li>• Roedd adolygiad o'r stoc wedi'i gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.</li> </ul> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor:</b></p> <p><b>NODI er SICRWYDD yr Adolygiad Cynnydd Stoc TG ar Argymhellion Archwilio Mewnol.</b></p>	Sicrwydd	Dim i'w nodi
3.3	<p><b>Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)</b></p> <p>Cyflwynodd Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol y Camau Archwilio ar gyfer y sesiwn breifat a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dilyn yr adolygiadau diweddar, darparwyd 52 o gamau archwilio newydd, saith ohonynt yn breifat ac yn deillio o'r Archwiliad Gadernid Technegol ac archwiliad TG a Gynhelir yn Genedlaethol gan Archwilio Cymru. Roedd dau argymhelliad wedi'u cwblhau ac roedd y pump arall ar y trywydd iawn i'w cwblhau.</li> </ul> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor:</b></p> <p><b>NODI'R diweddariad ar Gamau Archwilio ar gyfer SICRWYDD.</b></p>	Nodwyd.	Dim i'w nodi
3.4	<p><b>Diweddariad Rhaglen Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) – Diweddariad llafar</b></p> <p>Darparodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phrif Swyddog Masnachol y diweddariad llafar ar Raglen LINC a thynnodd sylw at y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trosglwyddwyd y Rhaglen LINC o Gydweithrediaeth y GIG i DHCW ym mis Ionawr eleni.</li> <li>• Rhoddodd Bwrdd Rhaglen LINC ystyriaeth i'r adolygiad diweddaraf o gynllun gweithredu diwygiedig diweddaraf y cyflenwr a daeth i'r casgliad nad oedd y cynllun yn dderbyniol.</li> <li>• Roedd penderfyniad i'w wneud ar derfynu'r contract ond roedd hyn i'w wneud gan y byrddau statudol/GIG yn ei gyfanrwydd.</li> </ul>	Sicrwydd	Dim i'w nodi

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd cyfarfod Bwrdd Eithriadol i'w gynnal ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Byrddau DHCW i drafod y sefyllfa cyn i'r Byrddau unigol gytuno ar y ffordd ymlaen.</li> <li>• Byddai dogfen Gwersi a Ddysgwyd yn cael ei chynhyrchu a'i rhannu â'r Pwyllgor. Yn ogystal, roedd DHCW wedi cyfarwyddo Blake Morgan ynghyd â chwmsler allanol a gyflogwyd trwy Blake Morgan i sicrhau'r cyngor gorau ar y camau nesaf a gymerwyd.</li> </ul> <p>Rhodddwyd sicrwydd pellach a chadarnhaodd MC bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos i drafod y goblygiadau ariannol.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor:</b></p> <p><b>DDERBYN</b> y diweddariad ar Raglen LINC ar gyfer <b>SICRWYDD</b>.</p>		
4	<b>Materion i Gloi</b>		
4.1	<p><b>Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd</b></p> <p>Pwyntiau allweddol a phenderfyniadau i'w hystyried:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad ar LINC ac ystyried y camau nesaf (os gellir eu rhannu'n gyhoeddus ar hyn o bryd)</li> <li>• Adolygiad Stoc TG ac argymhellion, gan gynnwys sicrwydd ar gynnydd camau gweithredu</li> </ul>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
4.2	<p><b>Unrhyw Faterion Brys Eraill</b></p> <p>Ni thrafodwyd unrhyw faterion Busnes Brys eraill.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
43	<p><b>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf: 3 Gorffennaf 2023</b></p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 12:30pm.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi